

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 9fed 2017 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Davies (Cadeirydd), Geraint Jones, Rhys Richards, Arwel Davies a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones, Gwynfryn Williams, Jean Roberts, Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Cydymdeimlwyd a Geraint Jones yn dilyn ei brofedigaeth yn ddiweddar.

Etholiadau Cyngorau Thref a Chymuned – 3/5/17.

Derbyniwyd copi o'r rhybudd yn datgan y rhai a oedd wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad fel aelodau o'r Cyngor a chwblhawyd y ffurflenni derbyn swydd. Cafwyd cadarnhad bod sedd wag ar y Cyngor a chytunwyd i arddangos yr hysbysiad perthnasol. Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr o ddiolch i Gwilym Davies am ei ymroddiad i'r Cyngor ar hyd y blynyddoedd.

Cyfarfod Blynyddol.

Gan nad oedd Gwynedd Jones yn bresennol cytunodd Geraint Davies i gadeirio'r cyfarfod. Etholwyd Geraint Jones yn is-gadeirydd.

a) Cyfrifon 2016-17.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2016-17 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

b) Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Adroddodd y clerc bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd a chytunwyd i apwyntio John Roberts i wneud yr archwiliad mewnol fel yr arfer.

c) Adolygu Asedau, Polisiâu a Rheoliadau'r Cyngor.

Cytunwyd bod y Rheoliadau Mewnol ac Asesiad Risg presennol yn gywir. Adolygwyd y rhestr asedau a chytunodd y cynghorwyr i archwilio'r llochesi bws yn Rhyduchaf a Parc ac adrodd yn nol ar eu cyflwr erbyn y cyfarfod nesaf.

ch) Etholwyd y cynrychiolwyr canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Partneriaeth Penllyn: Geraint Davies ac Arwel Davies.
Llywodraethwyr Ysgol Bro Tryweryn: Geraint Davies

Cyfarfod Misol.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.

a) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

b) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

i) Llythyrau diolch.

Derbyniwyd llythyrau yn diolch am y cyfraniadau ariannol a ddsbarthwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth.

ii) Dwr daear yn achosi problemau ger Ysgubor Gerrig, Rhyduchaf.

Cafwyd cadarnhad bod un o swyddogion Bwrdd Dwr Cymru wedi ymweld ar safle ym mis Ebrill ac am edrych i mewn i'r sefyllfa.

c) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol

- i) Parc Cenedlaethol Eryri – Copi o’i rhaglen cyfarfodydd am 2017-18.
- ii) Llywodraeth Cymru – Derbyniwyd copi o’r ddogfen ‘Canllaw’r Cynghorydd Da’.
- iii) Cais gan Eluned Morgan, Aelod Cynulliad i arddangos posteri gyda’i manylion cyswllt.

ch) Ceisiadau Cynllunio.

- i) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i’w gefnogi:-
NP5/72/240 – Gosod stepiau mynediad. Argae Llyn Arenig.

d) Materion Ariannol.

- i) Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £2,000
- ii) Cytunwyd i dalu’r canlynol:-
John Roberts (archwilio cyfrifon 2016-17)
Came & Company (Yswiriant)
- iii) Anfoneb BDO (archwiliad allanol 2015-16) - trafodwyd yr ymateb a dderbyniwyd i ymholiad y Cyngor i’r ffi a godwyd arnynt. Cytunwyd yn unfrydol i ail gysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru a datgan anfodlonrwydd y Cyngor i’r ymateb a dderbyniwyd.

dd) Unrhyw Fater Arall

Cytunwyd i basio’r cwynion canlynol ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd a’r Asiantaeth Cefnffyrdd.

- i) Derbyniwyd cais gan aelodau Merched y Wawr, Parc i dacluso ochr y ffyrdd o amgylch y pentref gan eu bod yn cynnal digwyddiad yn fuan i ddathlu pen-blwydd arbennig y Mudiad a bydd nifer fawr o westeion yn ymweld â'r pentref.
- ii) Canllaw Pont Arenig – derbyniwyd sylwadau am ddiogelwch y bont.
- iii) Ffordd ger Beudy Uchaf a Pant Neuadd, Parc - dros y gaeaf roedd dwr yn gorlifo i'r ffordd ac wedi tyllu’r tarmac.